# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*
# *Harbour Consultative Committee*

## *26 Chwefror 2008*

***Adroddiad yr Uned Morwrol***

***1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

***1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, 2008/09, wedi eu hanfon i'r Swyddogion Statudol ac Arweinydd Portfolio y Gwasanaeth Dysg Gydol Oes er cymeradwyaeth.

***1.2*** Yn atodol, gwelir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â harbwr Aberdyfi a harbwr Abermaw, ac fe fydd yr Aelodau yn nodi mai'r argymhelliad yw fod y taliadau i'r bobl hynny sy'n preswylio yn barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu o 4%, gyda'r cynnydd i'r bobl hynny sy'n byw y tu allan i Wynedd yn 5%.

***1.3*** Y rhagolygon chwyddiant i borthladdoedd Gwynedd yn 2008/09 yw 3.97%. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd gofynnol o £11,270 yn ein targed incwm am 2008/09. Bydd yr aelodau yn ymwybodol nad yw'r targed incwm i Abermaw yn cyrraedd ei darged ac felly bydd angen cymryd mesurau pellach i sicrhau fod y gwariant cyffredinol, a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau yn 2008.

***1.4*** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lawnsio a chofrestru Cychod Pŵer a Cherbydau Dŵr Personol wedi cynyddu ar gyfartaledd o 7%. Er bod rhai ffioedd yn aros heb newid, mae cynnydd bychan yn y taliadau cofrestru drwy'r post ac mae'r ffi caniatâd i lawnsio blynyddol hefyd wedi cynyddu. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau a argymhellir yn atodol.

***1.5*** Y cynnydd cyffredinol yn nharged incwm yr Uned Forwrol yn 2008/09 yw £62,040, gan gynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,070,880.

***2 – Datblygiadau Harbwr***

***2.1*** Mae’r Uned Forwrol yn parhau i holi am y posibilrwydd a dichonoldeb prynu pontŵn fyddai’n addas i’w osod dros dro ar hyd ochr wal y cei ger llithrfa’r harbwr. Bydd y cyfleuster yn gwella mynediad i forwyr sy’n byrddio ac yn gadael cychod gweini bychain. Gallai cychod pŵer sy’n ymweld hefyd ddefnyddio’r cyfleuster.

***2.2*** Er bod yr Uned Forwrol yn obeithiol iawn ynglŷn ag ymarferoldeb gosod y pontŵn ar wal y cei, nid ydym wedi dod o hyd i fynhonnell ariannu. O gofio am yr hinsawdd ariannol presennol, ni ellir rhagweld y bydd y pontŵn yn cael ei ariannu o gyllideb refeniw’r harbwr ac felly bydd angen dod o hyd i ffynonellau ariannu eraill.

***2.3*** Ar yr 22ain o Chwefror bydd yr Uned Forwrol yn mynychu cyfarfod a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ble y bydd datblygiadau posib a gwelliannau yn yr harbwr yn cael eu trafod. Bydd pontŵn tymhorol ynghyd â gwelliannau eraill posib ar y rhaglen.

***2.4*** Mae’r cyfleuster golchi traed oedd yn cael ei fandaleiddio’n gyson bellach wedi ei newid a’i ail-osod ar y wal y tu allan i Swyddfa’r Fferi. Bydd y cyfleuster ar gael i’w ddefnyddio cyn i brif dymor yr haf ddechrau a hyderir na fydd y cyfleuster yn cael ei niweidio yn y dyfodol. Os fydd y cyfleuster golchi traed yn cael ei fandaleiddio yna ni fydd gan yr Uned Forwrol unrhyw ddewis ond i gael gwared ohono.

***2.5*** Rydym wedi cwblhau mân waith atgyweirio i’r brif lithrfa yn ystod misoedd y gaeaf. Er mai dros dro yw’r atgyweiriadau nid ydym yn rhagweld y bydd niwed sylweddol yn cael ei wneud i’r lithrfa yn y dyfodol gan nad yw’r ôl-gerbyd ddefnyddiwyd yn flaenorol i lawnsio a nôl cychod hwylio ddim yn cael ei ddefnyddio. Canfyddwyd nad oedd olwynion yr ôl-gerbyd ddefnyddiwyd gan y darparwr gwasanaeth yn addas i’w ddefnyddio ar y lithrfa.

***2.6*** Mae’r holl bwyntiau trydanol ar ochr y cei wedi eu gwasanaethu ac mae mesurau diogelwch ychwanegol wedi eu cynnwys gyda’r cyflenwad. Bu galw mawr ar y cyfleuster a chafodd ei ddefnyddio yn sylweddol gan gychod hwylio fu’n ymweld a chan rai oedd yn cynnal a chadw eu cychod ar ochr y cei. Rhagwelir y bydd tâl dyddiol o £2.00 yn cael ei godi ar ddefnyddwyr y cyfleuster yma.

***2.7*** Gosodwyd yr uned teledu cylch cyfyng ac roedd cyfraniad gwerthfawr defnyddwyr yr harbwr o fudd mawr i ddiogelwch cychod ac eiddo arall yn yr harbwr a’r cyffiniau. Mae tywod a chwythir ac ewyn hallt yn ystod gwyntoedd cryfion yn achosi mân broblemau i’r camera ond rydym yn rhagweld y bydd y materion hyn yn cael eu datrys yn 2008.

## *3 – <u>Gwasanaeth Fferi</u>*

***3.1*** Yn ystod 2007, cyflwynodd yr Uned Forwrol dair Trwydded Perchennog i berchnogion chychod sy'n gweithredu yn Nyfroedd Categoredig harbwr Abermaw (dyfroedd Categori C.) Drwy rinwedd Deddf Diwygio Deddf Iechyd y Cyhoedd, gall y drwydded ddechrau saith niwrnod cyn y Pasg i ddiwedd Hydref. Dylid nodi y pwyntiau byrddio a gadael ar y Drwydded a bydd y cwch ond a'r hawl i gludo uchafswm o ddeuddeg o bobl (wedi eu diffinio fel pobl dros flwydd oed).

***3.2*** Yn 2008, mae'r Pasg yn gymharol gynnar ac yn dechnegol gellir cyflwyno'r drwydded i weithredu fferi yn y Dyfroedd Gategoreiddwyd gan ddechrau ar y 14eg o Fawrth 2008, ar yr amod fod y cwch wedi cael ei archwilio ar y lan ac ar y dŵr gan Syrfewr Cychod Hwylio ardystiedig.

***3.3*** Gofynnir i'r aelodau roi sylwadau ar y gofynion a restrir yn 3.4 i 3.7. Nid yw'r rhestr yn ollgynhwysol. Mae ffurflenni archwilio ychwanegol i gychod a'r rhestr offer i berchnogion yn atodol.

***3.4*** Mae hi'n hanfodol fod yr offer a argymhellir gan y Cyngor, sy'n lleiafswm, ar gael ar fwrdd y cwch bob amser. Cafodd y rhestr a'r argymhellion eu llunio o'r Côd Cychod Bach i Deithwyr Mewndirol.

***3.5*** Er mwyn bod yn feistr ar gwch sydd wedi ei hawdurdodi yn briodol i gludo teithwyr mewn Dyfroedd wedi eu Categoreiddio, mae angen i feistr cwch o'r fath gael ei drwyddedu yn briodol gan y Cyngor. Mae trwyddedau o'r fath yn cael eu cyflwyno yn rhinwedd Deddf Diwygio Deddf Iechyd yr Cyhoedd ac yn cael eu cyflwyno ar yr amod fod gan yr ymgeisydd gymwysterau addas a/neu brofiad.

***3.6*** Cyn derbyn Trwydded mae angen i'r ymgeisydd wneud cais i'r Awdurdod am Drwydded a bydd prawf medrusrwydd bach yn cael ei gynnal ar y dŵr gan yr Harbwr Feistr neu swyddog arall cymwys profiadol o'r Uned Forwrol. Dim ond ar ôl cwblhau'r prawf ar y dŵr yn llwyddiannus y cyflwynir y Drwydded.

***3.7*** Bydd Trwydded Perchennog a Thrwydded y Cychwr yn nodi fod y cwch, os yw'n cael ei ddefnyddio i gludo teithwyr am dâl, ond yn cael ei ddefnyddio yn ystod oriau golau dydd ac mewn tywydd da. I weithredu yn ystod oriau'r nos, rhaid gwneud cais ar wahân ynghyd ag asesiad o'r Cychwr ar y y dŵr.

## *4 -* ***Cyllidebau***

***4.1*** Mae sefyllfa ariannol porthladdoedd Abermaw ac Aberdyfi ar 31ain Ionawr 2008 yn atodol. Bydd yr aelodau yn sylwi fod y targed incwm ar gyfer harbwr Abermaw am 2007/08 yn £48,940, a bod cyfanswm yr incwm a grewyd hyd ddiwedd Ionawr 2008 wedi cyrraedd £35,167, diffyg o £13,773. Ni ragwelir y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod Chwefror a Mawrth ac felly rydym yn rhagdybio na fyddwn yn cyrraedd y targed incwm.

***4.2*** Hyd yma, mae'r gwariant wedi bod yn fwy na'r gyllideb ar sawl pennawd ac mae hyn yn peri pryder gan y rhagdybir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod Chwefror a Mawrth. Yn atodol hefyd ceir yr adroddiad ariannol hyd ddiwedd Rhagfyr 2007 ac fe noda'r aelodau y gall y troswariant a ragdybir i Abermaw fod yn £19,000 erbyn diwedd Mawrth. Bydd cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi rhoi ystyriaeth i'r targed incwm.

***4.3*** Fe fydd 2008/09 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn arbennig i harbwr Abermaw. Pwysleisir y bydd angen i ni oresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm, yn enwedig o gofio am yr hinsawdd ariannol presennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

## *5* ***Mordwyo***

***5.1*** Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo sy'n arwain i'r harbwr wedi parhau yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf. Hyd yma, mae'r gost o wasanaethu'r Cymhorthion Mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn £2,175. y gyllideb sydd ar gael yw £1,360, ac felly bydd angen dod o hyd i arian ychwanegol er mwyn cwrdd â'r gost. Nid yw'r gost y soniwyd amdani uchod yn cynnwys y gost o ddeunyddiau fel cadwynni ac angorion.

***5.2*** Bydd 'Golau'r Glwyd' angen gwaith cynnal a chadw sylweddol neu olau arall yn ei le yn y dyfodol agos, ac felly mae angen terfynu cynlluniau i sicrhau fod arian digonol ar gael i gwrdd â'r gost.

***5.3*** Mae'r marciau mordwyo sy'n eiddo i Dŵr Cymru angen eu cynnal a'u cadw i sicrhau fod y cymhorthion mordwyo yn cwrdd â gofynion Trinity House. Mae marc uchaf y golau a leolir gyferbyn â gorsaf Gwyliwr y Glannau ar goll ac mae marc uchaf y bibell ollwng sydd ger y brif lithrfa hefyd ar goll. Mae Trinity House wedi nodi fod angen ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a hyderir y bydd Trinity House yn hysbysu'r awdurdod sy'n gyfrifol am y gofyniad i gynnal a chadw marcwyr.